

CYFEILLGARWCH Â DUW, CYFEILLGARWCH Â'R BYD, —PA UN DDEWISWCH CHI?

Nodyn i'r siaradwr:

O gofio mai anerchiad i'r cyhoedd yw hwn, ceisiwch ddangos yn dringar pam a sut y dylai gwir Gristion ymatal rhag caru'r byd na meithrin ei gyfeillgarwch. Pwysleiswch fendithion tragwyddol cyfeillgarwch â Duw

MAE CARIAD A CHYFEILLGARWCH YN ANGHENION DYNOL SYLFAENOL (4 mun.)

Cynlluniodd y Creawdwr ni i fod ag angen cariad a chyfeillgarwch arnom ac i ymhyfrydu ynddynt (*g*86 9/22 4-7)

Pan na chyflawnir yr angen hwn, 'rydym yn anhapus (*g*83 4/22 31)

Y Beibl yn ein hannog ni i ffurfio cyfeillgarwch cariadus (Diar 17:17; Preg 4:9)

Ond, mae'r Beibl yn cyfyngu ar fath arall o gariad a chyfeillgarwch

Iago 4:4 yn rhybuddio'n gadarn yn erbyn "cyfeillgarwch â'r byd"

1 Ioan 2:15 yn dweud wrthym i beidio â 'charu'r byd'

Beth yw ystyr hyn? Gall ymddangos yn ddyrys, yn enwedig o gofio i Jehofah a Iesu ill dau garu'r ddynoliaeth (Diar 8:31; In 3:16)

BETH YW'R "BYD"? (10 mun.)

Mae ystyr y gair Groeg am "byd", *ko'smos*, yn amrywio yn ôl cyd-destun (*it*-2 1205-7, 1209-10)

Weithiau mae'n cyfeirio at y ddynoliaeth yn gyffredinol: biliynau o unigolion y mae Jehofah yn dymuno eu hachub (2Pedr 3:9)

Dyma'r "byd" y cyfeiria Ioan 3:16 a 6:51 ato

Ond gall *ko'smos* hefyd gyfeirio at y gymdeithas ddynol ar wahan i weision ffyddlon Jehofah, sydd wedi ymddieithrio oddi wrth Jehofah Dduw, neu fe all ddynodi fframwaith, trefniadaeth, neu gylch bywyd dynol

Llywodraethir "byd" cymdeithas ddynol ymddieithredig gan Satan (1In 5:19)

Mae iddo rannau amrywiol: gau grefydd (Dat 17:5); llywodraethau gwleidyddol (Dat 13:1, 2); y gyfundrefn fasnachol (Dat 18:11)

Mae Satan yn defnyddio pob rhan i gamarwain pobl, gan ddallu eu meddyliau rhag gweld eu hangen mwyaf: meithrin cariad at Jehofah a chyfeillgarwch ag ef (Mc 12:29, 30; 2Cor 4:4; Dat 12:9, 10)

O'r herwydd, hepgorir cyngor a safonau Duw (2Tim 4:3-5)

Derbynnir a hybir anfoesoldeb ac afradlonedd (Eff 2:1-3; 4:17-19)

'Does dim rhyfedd felly, fod Jehofah yn dweud wrthym i beidio â charu'r byd hwn nac i wneud cyfaill ohono!

Ond sut rhoddwn ystyriaeth i'r rhybudd hwn?

SUT MAE YMWRTHOD Â CHYFEILLGARWCH Â'R BYD? (16 mun.)

Nid, wrth gwrs, drwy fabwysiadu agwedd ffroenuchel, nawddoglyd

Fel Jehofah a Iesu, 'rydym ni'n caru pobl ac yn eu hystyried yn ddarpar ddefaid y mae'n ddyledus arnom roi'r dystiolaeth orau un y medrwn ei rhoi iddynt (1Cor 9:19-23)

Yn aml golyga hyn weithredoedd caredig a chymdogol (Lc 10:30-37; Iago 2:8; *w*92 2/15 18, ¶20)

Gostyngeddwydd, nid trahauster, yw nod amgen gwir Gristnogaeth (Iago 4:6)

Mae caru'r byd neu geisio'i gyfeillgarwch mewn ffordd nad yw'n boddhau Duw yn golygu bod â rhan yn chwantau'r byd, coleddu ei uchelgeisiau, arddangos ei ragfarnau a'i gasinebau, bod â'r agwedd drechol sy'n treiddio trwy ei gymdeithas ddirywiedig

Ymgadwch rhag cyfeillgarwch â'r byd drwy ymwrthod ag "ysbryd y byd" (1Cor 2:12)

Mae'r diafol yn defnyddio'r ysbryd hwn i wneud y byd yn hudolus, i ddylanwadu'n gyfrwys ar ein meddwl a'n calon

Ydych chi'n caru pethau'r byd hwn? Ydych chi'n cael eich difyrru gan bethau sy'n adlewyrchu llwyr ddiffyg "teimlad" neu synnwyr moesol y byd? (Eff 4:19; *g*92 11/8 4-10)

Gall difyrwch anfoesol o'r fath eich arwain i fod â rhan mewn gweithgareddau bydol a medi'r canlyniadau (Gal 6:7)

Tuedda'r byd i hyrwyddo amcanion materolaidd, nid rhai ysbrydol (Phil 2:21; 1In 2:16; *w*84 10/1 12-13)

Mae'r byd yn hyrwyddo uchelgais ennill cyfoeth a golud

Creu pryderon, arteithiau mae uchelgeisiau o'r fath (1Tim 6:10)

Rhybuddiodd Iesu ni i beidio â phryderu hyd yn oed ynglŷn ag angenrheidiau bywyd (Mth 6:25-34)

Mae 'hudoliaeth golud yn tagu'r gair' (Mth 13:22)

Gall ddigwydd heddiw fel yn y ganrif gyntaf (Phil 3:18, 19)

Mae'r byd yn eilunaddoli ei enwogion a'i rai amlwg

Mae pobl yn cael eu syfrdanu gan ddull bywyd rhodresgar y rhai amlwg hyn (1In 2:16)

Mae pobl yn edmygu eu hymddygiad anllad, eu sgwrs aflednais, eu hymdrwsio di-raen

Beth yw eich agwedd chi at unigolion o'r fath?

Mae ysbryd y byd yn ddi-gariad, yn ddi-dosturi, ac yn anfaddeugar

Gallai efelychu'r ysbryd hwnnw ennyn dicter cyfiawn Duw (Diar 16:27)

Mae Duw yn iawn i gondemnio "cyfeillgarwch â'r byd" (Iago 4:4)

Mae'r sawl sy'n dewis bod yn gyfaill i'r byd yn dewis cyfeillachu â gelyn peryglus iawn i Dduw (1Pedr 5:8; 1In 5:19)

'Fyddai rhiant cariadus yn caniatáu i blentyn ddewis fel ffrind agos un y byddai ei arferion a'i ddull bywyd yn niweidio'r plentyn?

Mae Jehofah yn cyfyngu ar ein cyfeillachu i'n hamddiffyn (Eseia 48:17)

'Ydyn ni'n cydnabod perygl cwmni drwg? (1Cor 15:33)

Methiant fydd rhan dyfodol cyfeillgarwch â'r byd, ond mae 'na gyfeillgarwch sy'n parhau am byth (1In 2:17)

MEITHRINWCH Y CYFEILLGARWCH GORAU OLL—Â DUW (11 mun.)

Gall bodau dynol amherffaith ddod yn gyfeillion i Dduw, fel 'roedd Abraham (2Cron 20:7; Iago 2:23)

'Roedd Jehofah yn caru Abraham a gwnaeth gyfaill ohono (Eseia 41:8)

Dangosodd Abraham ffydd ac ufudd-dod (Heb 11:8-10, 17-19)

Fe anrhydeddodd Jehofah ef â'r fraint o fod ymhlith hynafiaid Iesu

Fe amlinellir gofynion bod yn gyfaill i Dduw yn Salmau 15:1-5 (*w*89 9/15 26-9; ystyriwch rai o'r deg pwynt yn fyr)

Mae'r rhai sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwnnw yn gwneud ewyllys Duw

Ni symudir nhw, oherwydd fe fydd Jehofah, fel gwir gyfaill, yn eu hamddiffyn nhw ac yn eu cynnal

Mae angen cryfhau'r cyfeillgarwch hwnnw 'nawr; mae'n golygu gwaith caled (Judas 3)

Beth fydd ein hangen pennaf adeg y cystudd mawr?

Nid arian, nid pethau'r byd, ond ffydd diwyro

Adeiladwch ffydd drwy weddi ddyfal, astudio'r Beibl yn selog, presenoldeb ffyddlon yn y cyfarfodydd, a chael rhan frwdfrydig yng ngweinidogaeth y maes

Os gwnawn gamgymeriad difrifol, rhaid inni beidio ag ildio i unrhyw duedd i roi'r gorau iddi neu ymesgusodi; dyna mae Satan ei eisiau

Gofynnwch i'r henuriaid am help; gweithredwch ar eu cyngor (Diar 12:15; Heb 13:17)

Gallwch ddod dros eich cwrs pechadurus (Iago 5:13-16)

Bydd Jehofah, y Cyfaill cywir, yn maddau (Eseia 55:7)

Dilynwch esiampl Moses (Heb 11:24-26)

Gwrthododd garu'r byd ond cadwodd ei gariad at Dduw yn gryf

Cawn sicrwydd atgyfodiad

CYFEILLGARWCH Â DUW YN ARWAIN AT FENDITHION DIDDIWEDD (4 mun.)

Mae Jehofah wedi cymryd y cam cyntaf drwy ein caru ni a chynnig ei gyfeillgarwch (1In 4:19)

Mae ein calonnau yn ein cymell i ddangos cariad a gwerthfawrogiad iddo mewn ymateb

Dangoswn gariad at Dduw drwy ufuddhau i'w ddeddfau (1In 5:3)

Wynebwn erlid yn hytrach na throseddau yn erbyn deddfau Jehofah (Act 5:29)

'Rydym yn caru ac yn cynnal ei enw drwy ein geiriau a'n gweithredoedd (Salmau 119:132; Eseia 43:10-13)

'Rydym eisiau dweud wrth eraill am Jehofah (Rhuf 10:13-15)

Cawn fendithion yn y presennol a'r dyfodol drwy gyfeillgarwch o'r fath (Mc 10:28-30)

Caiff cyfeillion Duw eu harwain gan ei ysbryd (Gal 5:22, 23)

Cânt y fraint o ddod yn "bobl yn dwyn ei enw" (Act 15:14)

Gall ein cyfeillgarwch â Jehofah barhau'n dragwyddol, gan dyfu'n gynyddol agosach a gwerthfawrocach drwy gydol tragwyddoldeb

(Glynwch yn glôs at y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)